Oriel Gelf **Glynn Vivian** Art Gallery

OFFSITE / ODDI AR Y SAFLE

# Artist Preswyl Glynn Vivian: Cheon Pyo Lee

**Mawrth – Ebrill 2016**

Mae rhaglen 'Artist Preswyl' Oriel Gelf Glynn Vivian yn gyfle i'r gymuned ryngweithio, cyfnewid  a gweithio gydag artist, ac i'r artist fyfyrio, ymchwilio a chydweithio. Ein hartist yn ystod mis Mawrth – Ebrill 2016 yw Cheon Pyo Lee.

Cafodd Cheon Pyo Lee ei eni yng Nghorea, ond cafodd ei fagu ym Mharagwâi ac mae'n byw ac yn gweithio yn Efrog Newydd ar hyn o bryd. Cafodd Radd Feistr mewn Celfyddyd Gain o Ysgol Gelf Prifysgol Yale ar ôl cael ei wneud yn Faglor Celfyddyd Gain yn Sefydliad Celf Chicago yn 2006. Mae ei arfer rhyngwladol yn cwmpasu arddangosfeydd, gwobrau a chyfnodau preswyl, gan gynnwys Amgueddfa'r Frenhines yn Efrog Newydd a Stiwdio Breswyl Atelier Mondial yn y Swistir.




Llun: Cheon Pyo Lee, *'Medium is the same'*,  gosodiad cyfryngau cymysg

### Sgwrs Artist Preswyl

### Nos Iau 24 Mawrth, 5.30pm

Bydd Artist Preswyl Camles Tawe presennol, Cheon Pyo Lee, yn siarad am ei arfer hyd yn hyn a sut mae hyn yn ymwneud â'i ymchwil breswyl ar gyfer cyfnod preswyl yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, wedi'i chefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru.